**Pwerdy/Powerhouse  Gwybodaeth llogi 'r Oriel Gelf**

**Gwybodaeth am y Ganolfan a'r Oriel.**

Mae ein "Canolfan Gymunedol a Chelfyddydau" yn cael ei chefnogi gan wirfoddolwyr o'r gymuned leol, ac rydym yn darparu  amgylchedd o ansawdd uchel gyda dewis o ofod naill ai yn ystafelloedd  "Teifi,  "Tyweli  neu yn y  y balconi dan dô. Mae gan bob ystafell  system crog proffesiynol. Mae pob gofod o faint gwahanol, byddem yn argymell  i chi gysylltu a ni er mwyn trefnu amser  a dyddiad  cyfleus i chi ymweld ar orieler mwyn  mesur y gofod. Mae gyda ni gegin weithredol llawn gyda oergell fechan a ffwrn mecrodon. Rydym yn gofyn am gyfraniad am de a choffi os bydd defnydd o gyflenwad y Pwerdy  yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cost trydan.

Mae'r canolfan wedi ei gosod ar gyfer eich dibenion chi i  arddangos a goruchwilio  eich arddangosfa bersonol. Nid ydym yn medru cynnig  peiriant talu a cherdyn na pheiriannau arian  am unrhyw werthiannau. Taliadau  uniongyrchol i'r artist. Mae'r ystafelloedd yn addas ar gyfer gweithdai, darlith,ac arddangosiadu.Byrddau a chadeiriau a thaflunydd (Gellir llogi'r taflunydd) at eich defnydd  . Gellwch ddefnyddio ein cyfrifiadur ac argraffydd (Gwnewch gais am y cyfrinair) wedi ei leoli yn y gegin /swyddfa. Gofynnir  tâl rhesymol am ddefnyddio 'r argraffydd.

- Wi-fi  am ddim (Gwnewch gais am y cyfrinair)
- **<u>Cyfrifoldeb yr artist fydd yswiriant am unrhyw golled neu ddifrod.</u>** Mae'r adeilad yn cael ei warchod gan system larwm a ddaw'n weithredol wrth adael yr adeilad , bydd y larwm yn cael ei ddileu wrth gyrraedd . (Gwnewch gais am y côd).
- Cyfrifoldeb yr artist yw gosod a symud  arddangosfa bersonol.  Dim tyllu'r wal,  Paent gwyn i guddio unrhyw farciau. Tynnu ymaith unrhyw sticeri.
- Yr artist sy'n gyfrifol am farchnata'r arddangosfa ynghyd a'r gwahoddiadau  ar gyfer  arddangosiad preifat.
- Cyfrifoldeb yr artist fydd trefnu 'r arddangosfa breifat . Mae'r arddangosfa breifat ar ddisgresiwn yr artist.

**Taliadau.**

£3 yr wythnos am bob wal a ddefnyddir comisiwn o 10% ar bob gwerthiant.

Codir tal ychwanegol am weithdy/ai.

Bydd y cod ar gyfer mynediad a chau yn cael ei roi i'r llogwr a chfyrifoldeb y llogwr fydd agor a chloi'r adeilad ( bydd cyfarwyddiadau'n cael eu cynnig /rhoi) ,  Bydd blaendal o £20 pan fydd allwedd yn  yn cael ei throsglwyddo i'r llogwr.

**Cyhoeddusrwydd.**

Bydd unrhyw bosteri a gwybodaeth ddigidol ( fyddwch yn ei dylunio a 'u darparu) yn cael eu arddangos ar ein tudalen we . Os oes angen gall cylch lythyr y Pwerdy gynnig  manylion cyswllt a datganiadau i'r wasg . Mae cyfryngau cymdeithasol a geirda wedi profi'n ffordd effeithiol o roi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau.

**Oriau agor.** Mae rhan fwyaf o'n arddangosfeydd ar agor am dri diwrnod yr wythnos o 10yb ----4yp. Rydym yn Ganolfan Allgymorth i Brifysgol Aberystwyth ar gyfer "Dysgu Gydol Oes" a byddant yn llogi "Ystafell Teifi" ar gyfer dosbarthiadau celf ar Ddydd Mercher a Dydd Gwener yn ystod amser tymor. Os bydd dosbarthiadau'n cael eu cynnal ni fydd y ganolfan ar agor i'r cyhoedd. Bydd gwahanol sefydliadau'n y gymuned leol yn llogi'r ganolfan , rhan fwya gyda'r hwyr, a fydd yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i arddangosfa gael ei gwerthfawrogi gan gynulleidfa ehangach.

**Noder_** Mae'r oriel at ddefnydd pawb nid oes proses dethol.

**Oriel Pwerdy/Powerhouse**

| Enw'r artist/ grwp | Manylion cyswllt cyfeiriad, e bost, rhif ffôn | Dyddiad cychwyn | Dyddiad gorffen | Cost |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

| | |
|---|---|
| Llofnod yr artist | |
| Ar ran Oriel y Pwerdy | |
| Dyddiad | |
| Dull talu trwy siec os oes modd neu arian parod. | |

**Trwy gwbwlhau a llofnodi'r ffurflen yma rydych yn cytuno gyda'r amodau canlynol.**

- Cyfrifoldeb yr artist **yn gyfangwbwl** fydd yswiriant gogyfer a cholled neu ddifrod .
- Cyfrifoldeb yr artist fydd gosod a symud yr arddangosfa
- Cyfrifoldeb yr artist fydd unrhyw ddeunydd marchnata, a gwahoddiadau
- Cyfrifoldeb yr artist fydd trefnu arddangosfa breifat nid yw hyn yn orfodol. Gellir defnyddio byrddau a chadeiriau os bydd angen ac mae mynediad i'r gegin ac offer arlwyo yn gynwysiedig yn y pris.
- Mae dyddiad cychwyn a dyddiad cau yn cynnwys gosod a symud yr arddangosfa ac ail beintio'r waliau os bydd angen.